# Gweithio’n ddiogel mewn amgylchedd dyfrol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio’n ddiogel mewn amgylchedd dyfrol.

Mae’n cwmpasu deall y gofynion iechyd a diogelwch a pholisïau’r safle gweithio ynghyd â gallu cynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Mae’n cynnwys pwysigrwydd cynnal asesiadau risg yn barhaus a chymryd y camau perthnasol i gynnal gweithio diogel ar y safle. Hefyd, mae’n cwmpasu’r gweithdrefnau i’w dilyn yn achos damwain neu argyfwng.

Mae’r safon hon i bawb sy’n gweithio mewn amgylchedd dyfrol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dilyn y rheoliadau cyfreithiol ac iechyd a diogelwch perthnasol, ynghyd â gofynion eich sefydliad, wrth weithio mewn amgylchedd dyfrol
2. nodi peryglon ac asesu’r risgiau i iechyd a diogelwch wrth weithio mewn amgylchedd dyfrol
3. gweithio mewn ffordd sy’n lleihau risgiau i’ch iechyd a’ch diogelwch eich hun ac i iechyd a diogelwch pobl eraill
4. gofalu i amddiffyn eich hun rhag anaf, clefyd neu broblemau iechyd eraill
5. gwisgo dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sy’n addas i’r amgylchedd ac i’r gwaith sydd i’w wneud
6. gwirio cyflwr ac effeithiolrwydd cyfarpar diogelu personol (PPE) a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei gadw’n lân er mwyn osgoi lledaenu rhywogaethau goresgynnol neu blâu neu glefydau eraill
7. cymhwyso dulliau diogel o godi a thrin i leihau risg anaf
8. paratoi, defnyddio, cynnal a chadw, a storio’r cyfarpar a’r peiriannau sy’n ofynnol ar gyfer y gwaith, yn ôl cyfarwyddiadau’r gweithgynhyrchwyr a’r gweithle a’r ddeddfwriaeth berthnasol
9. trin, defnyddio a storio sylweddau peryglus yn unol â chyfarwyddiadau a’r ddeddfwriaeth berthnasol
10. dilyn gweithdrefnau eich sefydliad a mabwysiadu systemau gweithio diogel wrth weithio ar eich pen eich hun neu mewn sefyllfa a all fod yn beryglus neu’n fygythiol
11. defnyddio a gweithredu dyfeisiau cyfathrebu i ategu eich diogelwch personol
12. addasu gwaith i gyfrif am y tywydd a’r amodau amgylcheddol sydd ohoni
13. rhoi’r gorau i weithio ar unwaith os oes perygl damwain neu anaf a chymryd y camau gofynnol
14. dilyn y gweithdrefnau perthnasol yn ddiogel ac yn ddi-oed mewn argyfwng
15. rhoi gwybod am ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd, a’u cofnodi, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, y codau ymarfer a gofynion perthnasol eich sefydliad ar gyfer gweithio mewn amgylchedd dyfrol
2. eich cyfrifoldeb cyfreithiol a sefydliadol yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch
3. yr effeithiau y gall damweiniau, digwyddiadau a salwch yn gysylltiedig â gwaith eu cael ar bobl a busnesau
4. pryd dylid cynnal asesiadau risg a rôl asesu risg dynamig
5. risgiau anaf personol, dal clefyd, neu broblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl eraill sy’n gysylltiedig â gweithio mewn amgylchedd dyfrol, a sut gellir lleihau’r rhain
6. pwysigrwydd cyfarpar diogelu personol (PPE) o ran cynnal diogelwch wrth weithio mewn amgylchedd dyfrol
7. defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) a’i wisgo’n gywir
8. pwysigrwydd cadw cyfarpar diogelu personol (PPE) yn lân a’r broses i’w dilyn at y diben hwn
9. risgiau anaf sy’n gysylltiedig â chodi a thrin, a sut gellir lleihau’r rhain
10. dulliau diogel o baratoi, defnyddio, cynnal a chadw, a storio’r cyfarpar a’r peiriannau sy’n ofynnol ar gyfer y gwaith
11. defnyddio, trin a storio sylweddau peryglus yn ddiogel, gan gynnwys nwyon potel
12. risgiau gweithio ar eich pen eich hun, mewn mannau anghysbell neu sefyllfaoedd peryglus neu fygythiol posibl, a’r angen am ddilyn systemau gwaith diogel a gweithdrefnau brys
13. sut i weithredu dyfeisiau cyfathrebu sy’n ofynnol ar y safle gweithio
14. y risgiau sy’n gysylltiedig â’r tywydd ac amodau amgylcheddol wrth weithio mewn amgylchedd dyfrol
15. y gwahanol fathau o argyfyngau a all ddigwydd wrth weithio mewn amgylchedd dyfrol a’r gweithdrefnau i’w dilyn mewn argyfwng
16. technegau goroesi personol mewn dŵr oer
17. y gofynion cyfreithiol a gofynion eich sefydliad ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd

## Geirfa

**Argyfwng:** Digwyddiad neu sefyllfa frys, annisgwyl a pheryglus fel arfer sy’n peri risg uniongyrchol i iechyd, bywyd, eiddo neu’r amgylchedd, ac y mae angen gweithredu ar unwaith yn ei gylch.

**Perygl:** rhywbeth sydd â’r potensial i achosi niwed

**Digwyddiad:** digwyddiad neu sefyllfa anfwriadol sy’n tarfu ar weithrediadau arferol ac sy’n mynnu ymateb.

**Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)** – gallai gynnwys:

1. siacedi achub/cymhorthion hynofedd
2. esgidiau glaw/esgidiau pysgota/siwtiau gwlyb
3. anadlyddion/mygydau llwch
4. tanciau ocsigen
5. myffiau clustiau/plygiau clustiau
6. amddiffyniad i’r pen/hetiau caled/helmedi
7. menig
8. amddiffyniad i’r llygaid
9. esgidiau diogelwch
10. dillad llachar

**Risg:** y tebygolrwydd y bydd potensial perygl yn cael ei wireddu
Mewn amgylchedd dyfrol, mae’r risgiau mwyaf cyffredin yn deillio o:

- foddi
- hypothermia
- taro yn erbyn gwrthrychau/malurion sy’n arnofio neu sydd o dan y dŵr
- dod i gysylltiad â dŵr halogedig e.e. risg clefyd Weil
- peiriannau neu gyfarpar
- codi a thrin
- cemegion a sylweddau peryglus, gan gynnwys micro-organebau
- cnoadau/brathiadau
- mannau cyfyng
- ffynonellau pŵer: nwyon, trydan, aer cywasgedig
- llithro, baglu a chwympo
- effaith tywydd eithafol

- gweithio ar eich pen eich hun

Gweithio’n ddiogel mewn amgylchedd dyfrol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu37 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod, Rheolaeth Pysgodfeydd, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | iechyd a diogelwch; dyfrol; digwyddiad; argyfwng; risg; perygl |